| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Uwch Gymhorthydd Gofal |
| Cyfarwyddiaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Yn atebol i | Rheolwyr Gofal Cartref |
| Lleoliad | Cartref Gofal Preswyl |
| Cyfeirnod Swydd/Rhif Adnabod | |

**Pwrpas y Swydd**

Helpu'r Rheolwr a'r Rheolwr Cynorthwyol i greu tîm o staff sy'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd bob defnyddiwr gwasanaeth sy'n byw yn y cartref. Helpu i greu amgylchedd diogel, cyfforddus a gofalgar i fodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Bod yr unigolyn cyfrifol penodol yn y cartref yn absenoldeb y Rheolwr/Rheolwr Cynorthwyol ar sail rota reolaidd.

**Prif Gyfrifoldebau**

Cefnogi Rheolwr/Rheolwr Cynorthwyol y cartref i arwain, cyfarwyddo, tywys a chefnogi staff yn y Cartref i sicrhau eu bod yn gwneud eu gwaith yn unol â pholisïau'r Cyngor Sir a'r Gyfarwyddiaeth yn ogystal â gofynion deddfwriaethol, ac i sicrhau y bodlonir yr amcanion gwasanaeth a'r amcanion cynllun gofal unigol.

Delio â'r materion gweithredol o ddydd i ddydd yn absenoldeb y Rheolwr/Rheolwr Cynorthwyol i sicrhau bod anghenion y gwasanaeth yn cael eu bodloni. Cysylltu â theuluoedd ac asiantaethau eraill fel bod amgylchedd cefnogol cartrefol yn cael ei greu i breswylwyr a'u teuluoedd, a bod eu hanghenion cyfnewidiol yn cael eu monitro.

Sicrhau bod pob agwedd o ofal personol e.e. cymorth i newid, ymolchi, hunanreolaeth yn cael ei wneud mewn dull sensitif a pharchus. Tynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella a'u datblygu.

Trefnu rhaglen o weithgareddau yn y cartref ac arwain/cyfarwyddo staff gofal i'w gweithredu, gan greu cyfleoedd fel bod Preswylwyr yn cael eu cefnogi i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, sicrhau bod perthnasoedd presennol yn cael eu cynnal a rhai newydd yn cael eu datblygu yn y Cartref a'r gymuned ehangach.

Cynorthwyo Rheolwr / Rheolwr Cynorthwyol y Cartref i sicrhau y cedwir at safonau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a monitro Iechyd a Diogelwch yn barhaus yn y gweithle.

Cynorthwyo Rheolwr / Rheolwr Cynorthwyol y Cartref i sefydlu safonau perfformiad a systemau monitro addas yn y Cartref i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir o'r ansawdd uchaf a bod adnoddau ar gael. Cynorthwyo'r Rheolwr i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau gweithredu ar gyfer gofal preswyl.

Gydag arweiniad y Rheolwr / Rheolwr Cynorthwyol, creu Proffiliau un Dudalen, Cynlluniau Cefnogi Personol ac Adolygiadau o ddefnyddwyr gwasanaeth a helpu'r Rheolwr / Rheolwr Cynorthwyol i arwain y staff gofal i gwblhau dogfennau asesu a chadw cofnodion.

Hyfforddi Staff cefnogi er mwyn creu a chynnal gweithlu medrus a chymwys. Sicrhau bod

| |
|---|
| cydweithiwr yn deall nodau ac amcanion y Cyngor a'r Gyfarwyddiaeth yn ogystal â'u cyfraniad eu hunain tuag at fodloni'r nodau ac amcanion hynny.<br><br>Rhoi sylw i faterion cynnal a chadw adeiladau yn absenoldeb y Rheolwr / Rheolwr Cynorthwyol. |

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim |
| **Gwiriadau Cyflogaeth/Gofynion Penodol h.y. GDG** |
| Dim |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol. | | |
| **Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol** | **Hanfodol/ Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Cymhwyster Gofal Cymdeithasol neu Nyrsio (e.e. SEN NVQ 2/ FfCCh 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ymrwymiad i weithio tuag at FfCCh Lefel 4. Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| NVQ Lefel 3 neu FfCCh Lefel 4 | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Profiad sylweddol mewn gwasanaethau gofal preswyl neu gymunedol gyda phobl hŷn o fewn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol neu leoliad perthnasol arall. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Gwybodaeth am Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | Dymunol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o ofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a gallu datblygu a chefnogi pobl gan ystyried yr hyn sy'n bwysig iddynt. | Hanfodol | |
| **Sgiliau** | | |
| Dealltwriaeth o'r rôl a swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Budd-ddeiliaid allweddol i gefnogi pobl hŷn yn Sir y Fflint. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad / Asesiad |
| Dealltwriaeth ymarferol o bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor Sir. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth am broses asesu'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gallu siarad Cymraeg | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| **Cwsmer yn Gyntaf:** Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:** Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich gwaith a meddu ar y sgiliau, cymhelliant, brwdfrydedd ac ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn partneriaeth** Meithrin perthnasoedd cadarnhaol a'u cynnal er mwyn darparu gwell gwasanaethau i'n cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:** Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, parchu ein gilydd, mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| **Newid:** Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaethau. | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:** Eich arwain a'ch cymell eich hun ac eraill i wella perfformiad yn barhaus | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |